Gweithredu Egwyddorion Recriwtio/
Swyddi Gwag yn BIPBC
Cwestiynau a ofynnir yn aml

Pam fod pob swydd wag yn cael ei hysbysebu efo'r datganiad isod ynghlwm?
NODER Y BYDDWN YN DERBYN CEISIADAU GAN STAFF SY'N CAEL EU CYFLOGI GAN FWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR YN UNIG

Gan fod y Bwrdd Iechyd yn rhan o Ddiwygiadau'r GIG, mae'n rhaid iddo sicrhau fod digon o gyfle i symud a swyddi ar gael i staff mewnol i amddiffyn eu hawliau gwaith yn ystod cyfnod o newid enfawr.

Ydy hi'n werth i mi wneud cais er nad ydw i'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

Nac ydy, oherwydd dim ond ceisiadau mewnol fydd yn cael eu hystyried. Os na fydd ymgeisydd mewnol yn cael ei benodi, bydd yn rhaid ail-hysbysebu'r swydd ond ni fydd yn amodol ar y datganiad uchod.

Ydy staff Banc yn gymwys i ymgeisio am swyddi sy'n cael eu hysbysebu ar gyfer gweithwyr BIPBC?

Ydy, mae staff Banc BIPBC yn gymwys i ymgeisio am swyddi o'r fath a'u penodi.

Os bydd dim ond un ymgeisydd mewnol – a fydd yn cael ei roi ar restr fer neu a fydd y swydd yn cael ei hail-hysbysebu?

Os ydy'r unigolyn yn ateb meini prawf hanfodol y swydd, bydd yn cael cyfweliad. Os bydd yr ymgeisydd yn tynnu'n ôl o'r swydd neu os nad yw'n addas ar ôl y cyfweliad, fel arfer bydd y swydd yn cael ei hysbysebu eto yn fewnol. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu ar NHS Jobs ar gyfer ymgeiswyr allanol unwaith y bydd yn amlwg nad oes ymgeiswyr mewnol addas ar gael.

Pam fod cymaint o swyddi gwag yn cael eu hysbysebu ar Gontractau Cyfnod Penodol?

Mae hyn oherwydd bod yr ailstrwythuro presennol yn y GIG ar raddfa mor fawr. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gydymffurfio â Pholisi Newid Sefydliadol Cymru Gyfan yn ystod cyfnodau o newid ac ailstrwythuro. Mae'r Polisi yn dweud :

> "Mae'n bolisi gan GIG Cymru i atal unrhyw achosion o ddiswyddo gorfodol y gellir eu hosgoi sy'n codi o ganlyniad i newid sefydliadol. Fel y cyfryw, nod y Polisi hwn yw sicrhau bod y GIG yn cadw gwybodaeth, sgiliau a phrofiad gwerthfawr ei weithlu, drwy ddefnyddio nifer o strategaethau, i helpu aelodau o staff sydd wedi'u dadleoli iddo o hyd i gyflogaeth amgen addas a/neu gyfleoedd ailhyfforddi, a fydd yn wagelog i barhau i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at y gwasanaeth."

Am y rhesymau hyn, mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ddiogelu'r gweithlu presennol ac o ganlyniad mae swyddi yn cael eu hysbysebu dros dro i ganiatáu staff presennol symud yn fewnol ac ail-hyfforddi.

Lle gwahoddir ceisiadau o'r tu allan i BIPBC byddem yn annog ceisiadau oddi wrth unrhyw un sy'n ateb gofynion hanfodol y swydd. Wrth i'r ad-drefnu fynd rhagddo, mae disgwyl y bydd natur dros dro ein strategaeth recriwtio presennol yn newid ac y byddwn unwaith eto yn gallu hysbysebu swyddi parhaol.